

CYNGOR BRO LLANGELER-26:10:2015

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Hydref 26ain 2015 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **10/15 PRESENNOL:** Cyngorwyr: Yn y Gadair Adrian Thomas, Jamie Ayres, John Crossley, Brenda Jones, Christopher Jones, Dilwyn Smith, Marc Rees, Caroline Roberts, John Wigley. Clerc – Stella Jones
HEFYD YN BRESENNOL: Cyng. K Howell, Cyfieithydd
2. **10/15 HEDDLU:** PC I Ayers daeth i sôn am 'Community Speed Watch' amlinellodd sut mae'n gweithio. Awgrymodd i'r cyngorwyr feddwl am y peth. Dwedwyd bod beic modur yn teithio drwy Felindre ac yn gwneud sŵn, dwedodd PC Ayers bod yr heddlu yn ymwybodol o hyn.
3. **10/15 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Ian Davies, Delyth Evans, Nesta Jones, Mary Phillips
4. **10/15 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Medi 28ain 2015 a'u cael yn gywir
Cynigydd – Cyng. M Rees.
Eilydd – Cyng J Crossley.
5. **10/15 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Cyng J Crossley – 7.i 03/15 Materion yn Codi
6. **10/15 MATERION YN CODI :**
12.i.01/14. b)Audio Trail – mae Cyng C Roberts yn aros i'r cyfan ddod nôl wrth Ian Bowler ac yna bydd yn mynd i Cyng J Wigley edrych drosto.
7.i. 03/15 Pwyllgor y Parc – Clerc heb gael dim nôl o'r cyfreithiwr eto.
6.xvi.06/15 – Novus Energy – Blaen Bowi taliadau cymunedol – dim i adrodd nôl ar hyn o bryd.
10.i.06/15 - i. Coeden ar safle sgwâr Pentrecwrt – sefydliad y merched fod wedi plannu'r goeden wythnos diwethaf ond heb gael cadarnhad bod hyn wedi digwydd .
7.xvi.09/15 Dadorchuddio Bwrdd Gwybodaeth T Llew Jones – bu'n ddiwrnod llwyddiannus iawn ac fe lywiodd y Cadeirydd y Cyng Adrian Thomas y gweithrediadau yn hwylus iawn.
12.i.09/15 – coeden ar dro Dolhaidd yn goledu am yr hewl – Cyng K Howell wedi siarad a'r perchennog a dwedodd ei fod yn mynd i wneud rhywbeth ynghylch y mater. Nodwyd bod y goedwig ar werth ar hyn o bryd
12.ii.09/15 – i. Draen ar bwys encilfa Pensarnau a ii.Draen ger Dolhaidd wedi blocio – Cyng K Howell wedi gofyn i'r Cyngor Sir ddelio a'r mater.
7. **10/15 GOHEBIAETH:**
i. e-bost – C.FF.I Sir Gâr – llythyr o ddiolch am y cyfraniad.
ii GIG Cymru – Sgwrs Iach – Neuadd Tysul 9/11/2015 6.30 – 8.30yh
iii. e-bost – CSG – Ymgynghoriad ar gynnig ar gyfer "Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus" Sir Gaerfyrddin – *cylchlythyrwyd*
iv. e-bost – M Howell CSG –Llwybrau Diogel – *nododd bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn y rownd gyntaf.*
v. e-bost – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2016
– cylchlythyrwyd
vi. e-bost – Deiseb: Codi Tâl ar gyfer Parcio a'r Perthynas â Strydoedd Mawr a'u Llwyddiant – *cylchlythyrwyd anodwyd*
vii. e-bost – *Dyfed-Powys Police & Crime Commissioner – cylchlythyr – cylchlythyrwyd*
viii. e-bost– CSG – Ceisiadau Cynllunio 28.09.2015 - 02.10.2015 – *cylchlythyrwyd*
ix. e-bost – Dwr Cymru – 'Wrap Up Wales, Can you help us spread our message?' – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
x. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 05.10.2015 - 09.10.2015 – *cylchlythyrwyd*
xi. e-bost – Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft – *cylchlythyrwyd*
xii.e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 12.10.2015 - 16.10.2015 – *cylchlythyrwyd*
xiii. e-bost – Simon Thomas Bwletin Rhanbarthol AC – *cylchlythyrwyd*
xiv. Western Power – Golau Nadolig – Tystysgrif o Gyflenwad heb ei Fesur – *ffurflen llanw gwybodaeth*
xv. CSG – Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 – Cyfleoedd Cyllido - *nodwyd*
xvi. Urdd Ceredigion – llythyr o ddiolch am y rhodd ariannol
xvii. e-bost – CAB – Cyfarfod Blynyddol 12/11/15 am 6yh yng Nghanolfan Hamdden, Caerfyrddin – *cylchlythyrwyd*
xviii. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 19.10.2015 – 23.10.2015 - *cylchlythyrwyd*
8. **10/15 CYNLLUNIO**
Cais Ymgynghori llawn
W/32730 – Mr Clive Lott, Hafod, Bancyffordd, SA44 4SD – estyniad preswyl dau lawr arfaethedig – *dim barn*
W/32758 – D James, Church Hall, Rhos SA44 5HE – newid defnydd o neuadd eglwys i gapel gorffwys – *dim gwrthwynebiad*
W/32786 – Dr Robert McCall, Henfryn SA445JB - caniatad ol-syllol ar adeilad cofrestredig i adeilad fferm – *dim barn*
W/32782 – Mr Roger Broome, Penbank, Velindre SA44 5XE – cais am dystysgrif ddatblygiad cyfreithlon ar ddatblygiad arfaethedig ar ddefnydd arfaethedig: adio ystafell haul gwydr wrth ochr y ty fferm presennol – *dim barn*
W/32860 – Mr & Mrs David Mayes, Teifryn, Pentrecourt Rd, SA44 5AT – estyniad arfaethedig – *dim barn*

9. 10/15 MATERION ARIANNOL

a. Anfonebau

- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 28/09/2015£60.90
- ii .HIRIO NEUADD YR EGLWYS, PENBOYR – cyfarfod 28/09/15.....£7.00
[caniatad i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]
- iii. DŴR CYMRU [Cwmins Cwmhiraeth].....£17.76

Arian yn y Banc ar 01/10/2015.....£19,097.10

S/O

Cyflog y Clerc£418.75

b. Cais am Gefnogaeth Ariannol

CISS – Gwasanaeth Cymorth a Gwybodaeth am Ganser – *nodwyd*

10. 10/15 ADRODDIAD PWYLLGOR

Dim

11. 10/15 MATERION ANGEN TRAFODAETH

Gwasanaeth Sul y Cofio – dwedodd y Clerc bod Graham Showell wedi cadarnhau y bydd yn bresennol i ganu'r utgorn, nododd bod nifer o'r cymdeithasau wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn barod i gefnogi a chyflwyno torchau. Bydd y darlenniadau yn cael eu gwneud gan gynrychiolwyr o'r ddwy ysgol ac fe fydd y plant yn cyflwyno tîs yr un ynghyd a chymryd rhan yn y gwasanaeth.

12. 10/15 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:

- i. Cyng B Jones – dwedodd bod sbwriel wedi ei adael ar bont Bargod ond bod y mater wedi cael ei ddelio gyda'r Cyngor Sir.
- ii. Cyng C Roberts – gofynnodd a fyddai'r biniâu graeanu yn cael eu llanw'r gaeaf yma – dwedodd Cyng Howell y byddai hyn yn digwydd.
- iii.. Cyng J Wigley – a) dwedodd bod cyflwr yr hewl lawr drwy Felindre yn wael a bod angen ei glanhau.
- iv. Cyng C Jones - b) nododd bod yr hewl drwy Benboyr am Crossroads mewn cyflwr ofnadwy hefyd ac o Crossroads am Penfforddnewydd.

CYFARFOD NESAF

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf Nos Lun, Tachwedd 30ain 2015, am 7.30y.h yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20 y.h

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

